

## Uned 8

### Ysgôth

#### Taflen Wybodaeth

#### Cyflwyniad

Ysgôth yw'r achos mwyaf cyffredin o afiechyd ymysg anifeiliaid ifanc fferm. Mae ysgothi'n cael ei achosi gan:

- Ffactorau maethol
- Ffactorau pathogenaidd.

#### Beth sy'n digwydd pan mae anifail ifanc yn ysgothi?

Mae tu mewn i'r coluddyn bach mewn anifail carnol wedi ei orchuddio a miliynau o ffurfiannau tebyg i fysedd bychain a elwir yn fili.

Mae'r fili hyn yn gyfrifol am:

- Amsugno maethynnau fel asidau amino a siwgrau i lif y gwaed
- Ryddhau dŵr o'r gwaed i'r coluddyn bach
- Mae mwyafrif y dŵr hwn yn cael ei adamsugno yn y coluddyn mawr ac mae'r carthion yn tueddu i fod yn hanner soled.

Fodd bynnag, os oes gan yr anifail ddiffyg traul am ryw reswm, naill ai oherwydd pathogen neu reolaeth faethol wael, mae'n difetha'r cydbwysedd bregus sydd rhwng y mewnlifiad a cholli dŵr.

Mae'r anifail yn tueddu i golli mwy o ddŵr yn y carthion na'r hyn y mae'n yfed. Gwelir hyn fel carthion gwlyb neu 'ysgothi'.

Dadhydradu yw canlyniad hyn. Mae maethynnau a halwynau'n cael eu hysgarthu.

#### Beth yw rôl y pathogen?

Mae'r bacteria'n glynu wrth y fili gan ysgogi mwy o ddŵr i'w ryddhau i'r coluddyn bach. Maent hefyd yn rhyddhau tocsinau neu wenwynau i'r llif gwaed.

#### Mae firysau'n ymosod a lladd y fili ac yn lleihau maint y dŵr sy'n cael ei sugno'n ôl i'r corff.

#### Beth yw dadhydradu?

Os nad yw anifail sy'n ysgothi'n cael ychwaneg o hylif i'w yfed, mae'r gwaed yn 'tewhau'. Canlyniad hyn yw:

- Cylchrediad gwael
- Tymheredd y corff yn is
- Mae'r llo'n ymddangos mewn sioc gyda'i lygaid wedi suddo. Mae ganddo elastigedd croen gwael ac mae'n colli atgyrch sugno.

#### Achosion Ysgothi mewn Lloi

Gellir dosbarthu'r achosion i 4 categori:

1. Bacteriol: E Coli, Salmonela
2. Firaol: Rotafirws, Coronafirws
3. Protoal: Cryptosporidis, Cocsidiosis
4. Maethol

## 1. Bacteria (E. Coli a Salmonela)

Fel arfer, mae ysgothi E. Coli yn digwydd yn ystod wythnos gyntaf bywyd, o ganlyniad i ordyfiant bacteriol a chynnyrch tocsin. Yn gyffredinol, mae'n digwydd ar ôl heintiad firaol.

Pur anaml mae Salmonela yn digwydd mewn lloi sy'n llai na 14 diwrnod oed - gall fod yn ddirfriad iawn gan arwain at farwolaeth sydyn. Fel arfer, mae'r lloi'n gwaelu'n gyflym; mae'r ysgôth yn ddyfrllyd, gydag arogl drewllyd, ac yn aml yn cynnwys gwaed. Mae angen antibiotigau a glwcos sy'n cynnwys electrolytau ar gyfer y ddau gyflwr hyn.

## 2. Firysau (Rotafirws a Coronafirws)

Dyma'r math mwyaf cyffredin o ysgothi mewn lloi. Fel arfer, mae'r clefyd yn rhedeg ei gwrs am 3-5 diwrnod a dydy o ddim yn ymateb i antibiotigau. Mae dadhydradu a cholli egni'n sy'n lladd y llo fel arfer.

## 3. Protosoa (Cryptosporidia a Cocsidia)

Mae Cryptosporidia yn effeithio ar loi o 5 diwrnod oed ymlaen. Mae'n achosi ysgôth bron yn union fel ysgothi o ganlyniad i firysau. Mae dadhydradu a cholli egni'n lladd y llo os na chaiff ei drin.

Mae heintiau Cocsidiol yn effeithio ar stoc ifanc rhwng 1- 12 mis oed. Mae'n cael ei nodweddu gan garthion meddalach a straenio arwyddocaol - canlyniad arferion rheoli hylendid gwael a gor-stocio.

## 4. Ysgôth Maethol (Dietegol)

Fel arfer mae'n digwydd mewn lloi llai na 3 wythnos oed ac fe'i nodweddir gan garthion pastog a swmpus. Mae'r lloi i ddechrau'n sionc ac effro ond maent yn teneuo os na chaiff y diet ei gywiro. Gall hyn arwain at ddatblygu ysgôth heintus.

### Trin yr Ysgôth mewn Lloi

- Atal llaeth
- Cywiro dadhydradu a cholli halen
- Defnyddio antibiotigau os mai pathogen bacteriol ydi o
- Therapi ategol e.e. lamp gwres, hylif drwy diwb stumog.

### Atal a Rheoli Ysgothi mewn Lloi

- Gwahanwch y llo sy'n ysgothi oddi wrth loi eraill ond rhaid iddo fedru eu gweld nhw
- Sicrhewch fod y drefn fwydo'r un fath bob amser e.e. math o laeth, cryfder, tymheredd, yr amser rhwng y bwydo. Gall y rhain i gyd effeithio ar y coluddyn bach, a gwneud haint yn fwy tebygol
- Mae hylendid amgylchedd y llo a'r offer bwydo'n bwysig iawn. Mae Salmonela'n gallu cael ei drosglwyddo trwy boer
- Mae rhoi'r maint cywir ac amseru pryd i roi'r colostrwm ar ôl genedigaeth yn allweddol
- Os ydych yn gwybod beth ydi'r achosion, efallai bydd angen dilyn rhaglen brechu.

### Ysgôth mewn Wŷn

Fel arfer, mae ysgothi mewn wŷn yn gysylltiedig ag oedran a diet.

Y 3 prif grŵp yw:

1. Newydd-anedig (oddeutu adeg geni)
2. Wŷn sy'n tyfu
3. Oedolion

### 1. Newydd-anedig

Mae'r pathogenau sy'n gyfrifol am ysgothi'n cynnwys:

- E. Coli
- Salmonela
- Rotafirws
- Cryptosporidia
- Clostridia.

## 2. Wyn sy'n Tyfu

Gallai ysgothi gael ei achosi gan:

- Newid diet neu orfwyta dwysfwydydd e.e. Asidosis
- Pathogenau
  - I. Salmonela
  - II. Clefyd y Ffin
  - III. Cocsidiosis
  - IV. Nematodiriws
  - V. Gastro-enteritis Parasitig

## 3. Oedolion

Fel arfer achosir ysgothi gan newidiadau mewn diet neu barasitiaid mewnol e.e. *Trichostrongylus*